

Mae Ffrindiau Gigiau yn dechrau yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe



Bydd Ffrindiau Gigiau Cymru yn dechrau yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe.



West Glamorgan Regional Partnership

Mae hyn yn digwydd diolch i arian gan Gronfa integredig Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.



Gwnaethon ni ddechrau gweithio yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe ym mis Gorffennaf 2024.



Bydd yr arian yn dod i ben ym mis Mawrth 2026.



Byddwn ni'n derbyn ffurflenni cais ar gyfer gwirfoddolwyr a chyfranogwyr o **1 Medi 2024 ymlaen**.

Beth yw Ffrindiau Gigiau?



Mae Ffrindiau Gigiau yn brosiect sy'n helpu pobl ag anabledd dysu a/neu awtistiaeth i fynd allan a mwynhau gweithgareddau cymdeithasol gyda ffrind.



Ffrind gigiau yw rhywun sydd â'r un diddordebau a hobiau â chi.



Mae ffrindiau'n wirfoddolwyr. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n cael eu talu am yr amser maen nhw'n ei dreulio gyda chi.



Mae 'ffrindiau gigiau' yn dod yn ffrindiau go iawn.

Mae Ffrindiau Gigiau yn gallu treulio amser gyda'i gilydd yn gwneud llawer o bethau gwahanol. Er enghraifft:



- Gwyllo cerddoriaeth fyw
- Gweld sioe
- Ymarfer
- Mwynhau hobi
- Mynd allan am fwyd
- Gwyllo digwyddiad chwaraeon



Gallwch chi a'ch ffrind wneud cynlluniau ar gyfer gweithgareddau mae'r ddau ohonoch chi'n eu mwynhau.



Yn ogystal â gwneud gweithgareddau gyda'ch ffrind, gallwch chi ddod i lawer o ddigwyddiadau mae staff Ffrindiau Gigiau Cymru yn eu trefnu.

Sut rydw i'n cymryd rhan fel cyfranogwr?



Ar 1 Medi 2024 byddwn ni'n dechrau derbyn ffurflenni cais.



Bydd y ffurflenni hyn ar gael ar ein gwefan:
www.gigbuddies.cymru

I wneud cais fel cyfranogwr, mae rhaid ichi:

18



- Fod yn 18 oed neu'n hŷn
- Bod ag anabledd dysgu a/neu awtisticaeth
- Byw yn Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot



**25 o
bobl yn
unig**

Pan fydd 25 o bobl gyda ni, byddwn ni'n stopio derbyn ffurflenni cais.



Mae hyn er mwyn inni allu sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi'n dda.

Sut rydw i'n cymryd rhan fel gwirfoddolwr?



Ar 1 Medi 2024 byddwn ni'n dechrau derbyn ffurflenni cais.



Bydd y ffurflenni hyn ar gael ar ein gwefan:

www.gigbuddies.cymru

I wneud cais fel gwirfoddolwr mae rhaid ichi:

- Fod yn 18 oed neu'n hŷn
- Byw yn Abertawe, Castell-nedd neu Bort Talbot, neu fod yn fodlon teithio i'r ardaloedd hyn.
- Cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant – ni fydd hyn yn costio dim i chi.



Pwy fydd yn gweithio i Ffrindiau Gigiau Cymru?



Danielle Wagstaff – Cydlynnydd y Prosiect

Gwaith Danielle fydd cefnogi'r bobl sy'n cymryd rhan a'r gwirfoddolwyr yn ystod eu cyfnod gyda Ffrindiau Gigiau.

Bydd hi'n cyfweld pawb ac yn darparu hyfforddiant.

Bydd hi'n trefnu gweithgareddau grŵp i bobl ymuno â nhw.



Kai Jones – Swyddog Datblygu

Gwaith Kai fydd helpu mwy o bobl i ddysgu am Ffrindiau Gigiau.

Bydd e'n gweithio gyda busnesau, lleoliadau a sefydliadau i'w helpu nhw i ddeall sut maen nhw'n gallu cefnogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

Karen Warner – Rheolwr y Prosiect



Karen yw rheolwr prosiect Ffrindiau Gigiau Cymru.

Bydd hi'n gweithio gyda'r staff a'r cyllidwyr i wneud yn siŵr bod y prosiect yn cael ei redeg yn iawn.

Rydyn ni'n gyffrous iawn i ddechrau'r prosiect a chwrdd â phawb!

Dywedodd rhai o'n cefnogwyr:

Natalie – sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot ac sydd am ymuno â'r prosiect fel cyfranogwr.

“Bydd yn wych helpu fy hyder a gwneud ffrindiau newydd. Dwi'n hoff iawn o gerddoriaeth uchel, unrhyw beth roc, ond yn uchel yn bennaf!”





Jade – O Mirus supported living.

“Bydd e'n cynyddu cylch cymdeithasol pobl, ynghyd â rhoi mwy o hyder iddyn nhw, ac yn bennaf oll, bydd e'n rhoi mwynhad.”



Scott – Rheolwr yn Elysium, Abertawe.

“Dydyn ni ddim yn gallu aros i weld ein haelodau Ffrindiau Gigiau cyntaf yn dod i ddigwyddiad yma ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weld y cynllun yn llwyddo ac yn ehangu yn y dyfodol!”